OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 944 (Cy.125)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Cyfleustodau) (Gwerth Ardrethol) (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'i wneud	- -	*27 Mawrth 2003*
Yn dod i rym	- -	*1 Ebrill 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 140(4) a 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) a pharagraff 3(2) o Atodlen 6 iddi, sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**):

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Cyfleustodau) (Gwerth Ardrethol) (Diwygio) (Cymru) 2003 a daw i rym ar 1 Ebrill 2003.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "Gorchymyn BG " ("*the BG Order*") yw Gorchymyn BG plc (Gwerth Ardrethol) (Cymru) 2000(**3**).

ystyr "Gorchymyn Railtrack" ("*the Railtrack Order*") yw Gorchymyn Railtrack Plc (Gwerth Ardrethol) (Cymru) 2000(**4**)).

ystyr "Gorchymyn yr Ymgymerwyr Dŵr" ("*the Water Undertakers Order*") yw Gorchymyn Ymgymerwyr Dŵr (Gwerthoedd Ardrethol) (Cymru) 2000(**5**).

Diwygio Gorchymyn Ymgymerwyr Dŵ r (Gwerthoedd Ardrethol) (Cymru) 2000

2. Yn y Gorchymyn Ymgymerwyr Dŵr —

(**1**) 1988 p.41. Diwygiwyd adran 143(2) gan adran 139 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42) a pharagraffau 72 a 79(3) o Atodlen 5 iddi. Diwygiwyd paragraff 3(2) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988 gan adran 139 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a pharagraffau 72 a 79(3) o Atodlen 5 iddi a Deddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 (p.29).

(**2**) *Gweler* erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 2000/352 (Cy.10).

(**4**) O.S. 2000/555 (Cy.22).

(**5**) O.S. 2000/299 (Cy.6).